**ATODIAD 5**

**YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2020/21**

1. Wrth ddatblygu strategaeth arbedion a chyllideb drafft ar gyfer 2020/21, cytunwyd ffordd ymlaen er mwyn osgoi trosglwyddo targed arbedion o sylwedd i ysgolion Gwynedd eto eleni. Mae'r cynnig gerbron yn cynnwys un arbediad effeithlonrwydd i'r ysgolion, gwerth £31k (0.04% o'r cwantwm arian dirprwyedig) ymysg £1.9m o arbedion bydd y Cyngor yn gwireddu erbyn 2020/21. Wrth gwrs, penderfynwyd yn y Cabinet ar 17 Rhagfyr 2019 i beidio torri £464k o'r pennawd cyllideb staff dysgu (arbediad posibl roedd dan sylw). Felly, erbyn 2020/21 bydd dim newid i'r gymhareb disgybl:athro cyfredol yn y fformiwla dyrannu cyllidebau ysgolion.

2. Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2019 i gyfrifo dyraniadau 2020/21. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith cynnydd niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn codi £300k, sy'n cynnwys lleihad -£152k cynradd a chynnydd +£452k uwchradd.

3. Mae Llywodraeth San Steffan wedi codi cyfradd cyfrannu cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Athrawon o 16.5% i 23.6% o Fedi 2019. Bydd cost hyn yn £1.2m am y 5 mis yn 2020/21 sy'n effaith blwyddyn lawn o £2.8m gyda'r £1.6m ychwanegwyd eisoes. Mae'n 7% o gost cyflogau athrawon, ond yn gynnydd 40% mewn cyfraniadau pensiwn cyflogwr.

4. Gwelir yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu bidiau gwerth £334k, tuag at gyllidebau cludiant yr Adran Addysg, sy'n golygu y bydd cost 'Addysg' yn cynyddu eto rhwng 2019/20 a 2020/21. Yn sicr, wedi cymryd chwyddiant dros £2.3m a £1.2m pensiwn athrawon i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion dipyn uwch yn 2020/21 na lefel 2019/20.

5. Tra mae grantiau penodol gwerth £2m am tâl a phensiwn athrawon wedi trosglwyddo i'r setliad, bydd yna nifer o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2020/21 ar lefel tebyg i 2019/20. Hefyd, bydd grant newydd am ADY allasai fod gwerth £280k i Addysg yng Ngwynedd.